

‘Cefnogi cynnydd disgyblion: dadansoddiad manwl o ddatblygiad cyfannol un plentyn gan gyfiawnhau’r camau dysgu nesaf.’

Rhagarweiniad.

Cynhaliwyd yr ymchwil mewn ysgol fach wledig ym mhentref yng Ngheredigion, yn Ne Orllewin Cymru. Ceir tua saith deg disgybl ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd ac mae tua 8% yn gymwys am brydiau ysgol am ddim, sydd yn isel o gymharu â chyfartaledd Cymru (School Guide, 2013-2019). Daw 88% o ddisgyblion o gartrefi di-Gymraeg a nodwyd fod gan 29% o ddisgyblion Anghenion Addysgu Ychwanegol (School Guide, 2013-2019).

Mae’r disgybl ffocws yn ferch bum mlwydd oed ac ym mlwyddyn Derbyn. Daw o gartref di-Gymraeg. Felly ymdrecha i ddysgu’r Gymraeg yn yr ysgol. Dengys y Dangosydd Pynciau Craidd a dderbynnir wrth yr athrawes ddosbarth fod disgybl A yn cyrraedd deilliant 2a ym maes Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, deilliant 3c ym maes Mathemateg, deilliant 2c ym maes Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol a deilliant 4c ym maes Datblygiad Corfforol. Lleolir y dysgwr o fewn y grŵp gallu uwch yn y dosbarth. Fodd bynnag, gan nad oes llawer o ddisgyblion yn y flwyddyn ysgol hon, caiff y grŵp i wahanu i ddau yn ystod tasgau ffocws wrth iddynt gwblhau gweithgareddau sydd wedi ei wahaniaethu.

Methodoleg.

Trwy gydol yr aseiniad hwn, cydymffurfir â chanllawiau BERA (2018) wrth gadw’r ysgol a’r dysgwr dan sylw yn ddienw. Cyfeirir at yr ysgol fel ‘Ysgol A’ a chyfeirir at y dysgwr fel disgybl A. Cyn dechrau cynnal yr ymchwil a chasglu’r data derbyniwyd caniatâd gan yr ysgol i gynnal yr ymchwil (gweler Atodiad 1). Yn unol â hyn, derbyniwyd caniatâd y rhieni wrth ddanfôn llythyr yn egluro’r broses iddynt (gweler atodiad 2). Derbyniwyd cydsyniad disgybl A gan egluro’r ymchwil iddi mewn modd dealladwy ac yna defnyddio wynebaw hapus a thrist iddi fynegi ei theimladau am agweddau gwahanol yr ymchwil. Sicrhawyd ei bod yn deall ei hawliau o ran ymneilltuo ar unrhyw adeg yn ystod yr ymchwil yn unol â chanllawiau’r British Education Research Association BERA (2018). Eglurwyd i bawb oedd ynghlwm â’r ymchwil beth oedd yn digwydd i’r data a gasglwyd a bod ganddynt yr hawl i weld y data os oedden nhw am,

o ganlyniad i ddilyn Cod Ymarfer Moeseg Integredd Ymchwil PCYDDS (2017 - 2022) a'r Ddeddf Diogelu Data (2018).

Cesglir y data ar gyfer yr aseiniad gan ddefnyddio dull 'Mosaig' Clark a Moss (Clark, 2007) gyda'r dysgwr yn ganolog i'r broses (Clark, 2007). Neilltuwyd cyfle iddi fynegi ei theimladau gan gefnogi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2015a) (CCUHP) a nodwyd fod gan blant yr hawl i'w barn os yw'r penderfyniad yn mynd i'w effeithio arnynt. Dengys ymchwil Rinaldi (2001: dyfynwyd yn Schiller a Einarsdorttir, 2009) fod ystyried barn plant mewn ymchwil yn gallu arwain at ganlyniadau positif i blant ac i oedolion.

Defnyddir dull ychwanegol i gefnogi'r data a gasglwyd am ddisgybl A gan ddefnyddio'r dull 'Agwedd, Sgiliau a Gwybodaeth' (ASG) (Nottingham, 2015) er mwyn edrych yn ddyfnach i'r addysgu mewn modd cyfannol. Edrychwyd ar y sgiliau a'r wybodaeth a ddysgwyd ond hefyd yr agwedd sydd ganddi tuag at ddysgu oherwydd dywed Nottingham (2015) fod angen i ddysgwyr datblygu yn y maes 'sgiliau', 'gwybodaeth' ac 'agwedd' er mwyn bod yn ddysgwyr 'mentrus'. Cysylltir hyn â phedwar diben y cwricwlwm newydd (Donaldson, 2015).

Awgrymir yr enw 'Mosaig' fod yna sawl rhan i'r ymchwil. Cynhelir arsylwadau gan sicrhau i beidio fod yn gyfranogwr i ddechrau er mwyn peidio ag amharu ar neu newid ymddygiad y disgybl mewn unrhyw ffordd, er mwyn i allu dod i adnabod yr unigolyn. Gelwir yr effaith yma mewn ymchwil yn 'effaith Hawthorne' (Oswald et al., 2014) ac felly, er mwyn osgoi hyn roedd hi'n bwysig fod y dysgwr yn ymwybodol o'r gweithdrefnau ymlaen llaw er mwyn derbyn ei chydweithrediad a sicrhau ymddygiad cyson drwy gydol yr ymchwil (David et al., 2001). Anfantaïs amlwg oedd ei hoed wrth warantu hyn. Yna cynhelir arsylwadau cynlluniedig wrth gymryd rhan weithgar yng ngweithgaredd y plentyn wrth addysgu'r plentyn a chynnal tasgau ffocws o fewn y dosbarth. Defnyddir y math yma o arsylwi er mwyn ymchwilio a chasglu data ar agweddau penodol (Llywodraeth Cymru, 2010).

Penderfynwyd defnyddio'r dull o arsylwi gan fod ganddo gryfderau megis dod i adnabod y plentyn cyflawn yn gyflym. Noda Pellegrini et al., (2013) yr angen i addysgwyr adnabod a deall plant y dosbarth yn gyntaf a chasglu gwybodaeth angenrheidiol wrth arsylwi cyn ymyrryd. Cytuna Llywodraeth Cymru (2017) ond dadleua Dewey (1938: dyfynnwyd yn Colwell, 2015) nad yw arsylwi yn unig yn darparu darlun cyflawn o ddysgwr. Ymhelaetha Pellegrini et al., (2013) gan nodi fod arsylwi llwyddiannus yn golygu cynnal nifer o arsylwadau dros gyfnod o amser. O ganlyniad i

hwn defnyddiwyd ffyrdd eraill o gasglu data yn perthyn i'r dull 'Mosaig' i gasglu data i'w ddadansoddi'n fanwl i ganfod datblygiad cyfannol y disgybl ffocws. Cefnogwyd yr arsylwi wrth gwblhau nodiadau arsylwi. Asesir disgybl A yn ffurfiannol wrth lenwi cofnod olrhain wrth iddi gwblhau tasgau a gweithgareddau wrth nodi sylwadau perthnasol. Noda Donaldson (2015:) fod angen 'asesu dilys a dibynadwy' er mwyn sicrhau datblygiad plant. O fewn Llawlyfr Proffil y Cyfnod Sylfaen (Llywodraeth Cymru, 2017)) amlygir manteision asesu ffurfiannol megis cydnabod cyrhaeddiad a chynllunio pwrpasol ar gyfer y camau dysgu nesaf.

Cynhaliwyd sgwrs gyda'r unigolyn er mwyn casglu'i barn am yr hyn sydd yn bwysig iddi a sut gwnaiff ddysgu orau. Dywed Langsted (1994: dyfynnwyd yn Clark, 2007: 76) 'Young children are experts in their own lives' felly, hanfodol ydoedd i wrando ar lais y disgybl. Hefyd mae gan blant yr hawl i'w barn yn ôl y CCUHP (2015a). Fodd bynnag, dadleua Lundy et. al (2011) nad yw barn plant yn y blynyddoedd cynnar yn ddibynadwy oherwydd eu hoedran a'u dealltwriaeth. Wrth ystyried oedran disgybl A, fydd y sgwrs yn anffurfiol oherwydd fel noda Dalli a Stephenson (2010) ni all plant hyd at bump oed ddeall cwestiynau cymhleth. Addaswyd y cwestiynau ar ei chyfer a gofynnwyd iddi dynnu lluniau i gefnogi'i barn. Defnyddiwyd ffotograffau a fideos fel tystiolaeth. Ffyrdd effeithiol o gasglu tystiolaeth yn ôl Bruce et al. (2014) er rhaid sicrhau nad ydynt yn cyfyngu ansawdd y dadansoddi oherwydd gellir defnyddio lluniau yn unig i ddadansoddi'r plentyn rhoi data anghywir os nad yw'r ymchwilydd yn trafod y lluniau gyda'r unigolyn sydd wedi ei gymryd (Baker a Weller, 2003).

Cynhelir yr ymchwil dros amser cyfyngedig, byr felly fydd angen cynnal cyfweliad gyda'r athrawes ddosbarth oherwydd mae hi'n adnabod disgybl A yn dda a fydd yn bosibl iddi egluro ble mae disgybl A arni ar hyn o bryd i sicrhau fod yn bosibl llunio ffordd ymlaen effeithiol.

Dadansoddiad o'r Dysgwr.

O'r arsylwi cychwynnol synhwyrwyd ei bod hi'n aelod tawel o'r dosbarth. Yn ystod tasgau ffocws fyddai disgybl A yn eistedd yn dawel ac i weld yn gwrando. Fodd bynnag, ni fyddai'n cynnig atebion i gwestiynau nac ychwaith yn gofyn cwestiynu am waith dan sylw.

Cyrhaeddwyd deilliant 2 o fewn y maes iaith, Lythrennedd a Chyfathrebu, a daw hyn yn amlwg wrth ei harsylwi mwy. Yn ystod gwers iaith a addysgwyd, gwrandawodd yn dda ar y stori ond yn y dasg oedd yn dilyn, ni chyflawnodd i feddwl am a llunio

brawddegau am y prif gymeriad. Derbyniodd llawer o gymorth i lunio brawddegau a chopiodd yn dda o'r bwrdd gwyn gyda llawysgrifen daclus dros ben (gweler atodiad 3). Roedd ganddi wybodaeth dda am y stori wrth iddi allu ateb cwestiynau yr oeddwn yn gofyn i drafod y stori, sy'n cysylltu â'r agwedd gwybodaeth o'r dull 'ASG' (Nottingham, 2015). Fodd bynnag, doedd ganddi hi ddim yr agwedd i ymdrechu i ddefnyddio'i sgiliau i allu llunio brawddegau gydag ond ychydig o gymorth. Arfarnwyd nad oes ganddi lawer o hyder a bod ganddi ofn i gael pethau'n anghywir felly mae angen datblygu agwedd bositif tuag at ei gwaith a'i gwytnwch.

Amlygwyd yr agwedd yma yn fwy wrth arsylwi disgybl A dros amser mewn gwersi eraill. O fewn gwersi ffocws iaith arsylwyd fod disgybl A yn eistedd gyda grŵp o'i chyfoedion ond eto heb gymryd rôl gydweithredol o fewn y grŵp. Tueddai edrych o gwmpas, yn lle gwrando ar arweinydd y dasg nes i'r ymarferydd adrodd ei henw. Cyfeira Siegel a Bryson (2018: dyfynnwyd yn Hanessien, 2018) at yr arfer fel 'No brain' megis pan fydd unigolyn yn rhewi neu pan wnaiff ymennydd lewygu gan nad yw'n deall neu am wrando. Arweinia hyn at ddysgu cyfyngedig (Siegel a Byron, 2018: dyfynnwyd yn Hanesienn, 2018). Roedd y dasg benodol yn dymuno iddi chwilio mewn geiriadur a chreu rhestr geiriau sydd a 'b' ynddynt (gweler atodiad 4). Ni chyfrannodd llawer ar lafar a pan ddaeth yr amser iddi ddefnyddio'r geiriadur nad oedd yn canolbwyntio er ei fod yn medru darllen yn dda. Cytunodd yr athrawes ddosbarth gyda'r canfyddiad a chadarnhau ei bod yn blentyn tawel yn y dosbarth. Ategodd nad yw hi'n siarad llawer o Gymraeg ac yn ymateb yn Saesneg fel arfer.

Cynhaliwyd cyfweiliad anstrwythuredig gyda disgybl A er mwyn asesu ei hymateb i sgwrs un am un. Ymatebodd yn awyddus wrth ofyn iddi ddod allan i eistedd yn yr ardal allanol i gael sgwrs. Roedd yn amlwg wrth i mi ofyn cwestiynau iddi ar y dechrau fod yr hyn a dywedodd yr athrawes ddosbarth am ei bod hi ddim yn siarad llawer o Gymraeg yn gywir oherwydd roeddwn ni yn gofyn cwestiynau megis "Beth wyt ti'n hoffi gwneud yn yr ysgol?" a fyddai hi'n ymateb ar ôl seibiant, yn Saesneg gan ddweud "Drawing and Reading". Rhannodd wybodaeth am bethau anodd iddi megis ysgrifennu a'i diffyg hoffter at y sgil. Datgelodd ei hoffter o'r gofod allanol. Arweiniodd hi'r sgwrs ymlaen i drafod teganau oedd ganddi adref a thrafod anifeiliaid yn helaeth. Darganfuwyd wrth arsylwi dros gyfnod fod ganddi ddiddordeb byw mewn anifeiliaid. Wrth ymgymryd mewn gwersi oedd ag unrhyw gysylltiad i anifeiliaid roedd ei agwedd tuag at y gwaith yn newid. O ganlyniad i ddarganfod hyn, cynlluniwyd tasgau â chysylltiadau i anifeiliaid neu wybodaeth am anifeiliaid ynddynt. Cynlluniwyd tasgau yr

oedd yn galluogi iddi ymarfer ei hagwedd chwilfrydig o'r fodel 'ASG' (Nottingham, 2015).

Gofynnwyd iddi ddefnyddio 'ipad' i dynnu llun o'i hoff le yn yr ysgol a'r peth sy'n helpu hi i ddysgu fwyaf ond doedd hi ddim am ei ddefnyddio. Adnabyddir fod gweddill o ddisgyblion y dosbarth yn hoff iawn o ddewis i chwarae ar 'ipad' yn ystod eu hamser dewis. Er hynny, doedd disgybl A ddim a phan gynlluniwyd tasgau i ymarfer sgiliau'r Fframwaith Cynhwysedd Digidol (Llywodraeth Cymru, 2018) doedd hi ddim yn hyderus yn defnyddio'r dechnoleg. Yn hytrach roedd well ganddi dynnu lluniau ar bapur gan nad oedd yn hyderus yn defnyddio'r 'ipad'. Dilynwyd barn y plentyn, gan dyma bwrpas yr ymchwil, wrth alluogi iddi dynnu lluniau o beth oedd hi'n hoffi gwneud mwyaf yn yr ysgol ar bapur (gweler atodiad 9).

Dangoswyd sgiliau cyfathrebu da yn ystod y cyfweiliad un i un. Fodd bynnag yn ystod tasgau ble roedd angen cydweithio fel pâr neu grŵp, yn ystod amseroedd chwarae ac wrth iddi chwarae yn yr ardal barhaus, arsylwyd nad oedd hi'n cymdeithasu nag yn cyfathrebu llawer gyda disgyblion eraill. Cyrhaeddwyd deilliant 2 isel yn y maes Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol. Adfyfyrwyd fod angen gwella'r deilliant yma yn seiliedig er mwyn i'r sgiliau a ddatblygwyd ei helpu o fewn meysydd eraill, gan fod dysgu wrth eraill trwy eu 'Parth Datblygiad Procsimol' (Vygotzky, 1967: 327: dyfynnwyd yn Bodrofa a Leong, 2015) yn datblygu sgiliau sy'n paratoi disgyblion i ddatblygu sgiliau meddyliol a chefnogi ei datblygiad cyfannol (Vygotzky, 1967: dyfynnwyd yn Bodrofa a Leong, 2015).

Amlygwyd bod disgybl A yn hoff iawn o dynnu lluniau wrth sgwrsio ganddi, arsylwi arni ac wrth ei haddysgu dros y cyfnod. Cyrhaeddwyd deilliant 4 uchel yn y maes Datblygiad Corfforol, sy'n uwch na'r hyn a ddisgwylir ar gyfer disgybl o'i hoedran. Roedd hyn yn amlwg oherwydd bod ganddi sgiliau llawdriniol manwl ardderchog gan fod ganddi 'reolaeth dda ar bensiliau, creonau ac adnoddau marcio eraill' (Llywodraeth Cymru, 2015b). Hefyd gellir tynnu lluniau gwych o bobl gan 'gynnwys llygaid, trwyn, ceg a bysedd' (Llywodraeth Cymru, 2015b) (gweler Atodiad 5 ble thynnodd llun ohoni hi a finnau). Wrth dynnu lluniau roedd ei hagwedd yn newid ac o ganlyniad i hyn roedd hi'n defnyddio'r sgiliau a'r wybodaeth oedd ganddi am sut i dynnu llun da yn hyderus. Yr wythnos yn dilyn y dasg iaith ysgrifennu brawddegau am 'Bili Broga' daeth disgybl A a llun roedd hi wedi creu adref o 'Bili Broga'. Datblygwyd sgwrs o'i llun ac roedd hi'n hyderus yn trafod yr hyn oedd hi wedi creu ac yn fwy awyddus yn trafod y cymeriad nag yr oedd hi yn y wers. Amlygwyd yma yr hyn a dywed Nottingham (2015) wrth iddo

awgrymu fod yr addysgu gorau yn cynnwys y tri pheth sef 'agwedd, sgiliau a gwybodaeth'.

O fewn agweddau eraill y maes Datblygiad Corfforol mae'r sgiliau ganddi i neidio, rhedeg, newid cyfeiriad a chropian (gweler atodiad 10). Fodd bynnag nad ydy yn 'medru taflu a derbyn gwrthrych dros bellter byr' sydd yn sgil o deilliant 3 (Llywodraeth Cymru, 2015b). Gellir dadlau fod disgybl A ddim wedi ymarfer y sgiliau yma oherwydd ei ddewis i beidio cyd-chwarae.

Cyrhaeddwyd disgybl A deilliant 3 isel yn y maes Datblygiad Mathemategol. Mae ganddi wybodaeth dda o gyfrif, siâp, a rheoli arian (gweler atodiad 6 a 7) ac yn hyderus wrth 'adrodd rhifau i 20, ymlaen ac yn ôl, ac o fannau cychwyn gwahanol' a 'chyfrif hyd at 10 o wrthrychau'n ddibynadwy' (Llywodraeth Cymru, 2015b). Fodd bynnag, wrth iddi ysgrifennu rhifau hyd at 10 mae'r rhifau 2, 3, 4 a 9 yn wynebu'r ffordd anghywir ganddi (gweler atodiad 8). Ymatebwyd gan ffurfio'r rhifau uwchben yn gywir mewn pen gwyrdd wrth ddilyn cynllun marcio'r ysgol ac roedd hi'n gallu ffurfio nhw yn gywir. Er hynny, wrth iddi ymdrechu eto i ffurfio'r rhifau roedd yr un rhifau dal yn wynebu'r ffordd anghywir. Cynlluniwyd tasg ble'r nod oedd ailadrodd a gorffen patrwm 2 siâp a 3 siâp ac roedd disgybl A yn hyderus iawn wrth barhau gyda'r patrymau a dangosa sgil deilliant 4 wrth gwblhau patrwm siâp (Llywodraeth Cymru, 2015b).

Cynlluniwyd gwers cerddoriaeth gan gynnwys cysylltiad i gorryn gan fod gan ddisgybl A, a disgyblion eraill y dosbarth diddordeb mawr mewn anifeiliaid a fyddai'r diddordeb yma yn arwyddocaol i sicrhau agwedd chwilfrydig a gwytnwch (Nottingham, 2015) y disgyblion i'w helpu wrth gwblhau'r dasg. Roedd gan ddisgybl A agwedd bositif iawn tuag at y dasg sef creu synau gan ddefnyddio amryw o offerynnau i gyd fynd â'r clip fideo. Er hynny, cynlluniwyd fod y disgyblion yn dewis yr offerynnau a'i arbrofi ganddynt. Amlygwyd fod hi'n betrusgar wrth ddewis ei offeryn a doedd hi ddim yn sgwrsio na thrafod fel y disgyblion eraill. Dengys y data yma eto fod angen cymorth a chefnogaeth ar ddisgybl A i ymarfer a datblygu ei sgiliau cymdeithasu a chyfathrebu. Cyrhaeddwyd deilliant 3 o fewn y maes Datblygiad Creadigol, er nad yw'n hyderus wrth arbrofi ac ymchwilio ag adnoddau. Gwelwyd hyn o fewn gwers greadigol eraill ble cynlluniwyd iddi greu malwoden allan o ddeunyddiau naturiol yn yr ardal allanol. Arsylwyd bod disgybl A yn ansicr wrth ddewis yr adnoddau i ddefnyddio. Gwylodd y gynorthwywraig a ymyrrwyd i roi cefnogaeth iddi wrth awgrymu iddi ddefnyddio cerrig i ddechrau. Cwblhawyd y falwoden gan ddefnyddio cerrig yn unig (gweler atodiad 11).

Amlygwyd fod angen datblygu sgiliau arbrofi ac ymchwilio disgybl A heb iddi deimlo fod yna ffordd anghywir o wneud tasgau creadigol.

Cynnydd i'r Dyfodol.

Cynlluniwyd o ganlyniad i ddadansoddi'r data, amryw o ffyrdd i ddatblygu sgiliau disgybl A yn drawsgwricwlaidd. Defnyddiwyd y model 'ASG' (Nottingham, 2015) i sicrhau fod y ffyrdd ymlaen a gynlluniwyd yn ystyried y disgybl cyfan.

I ddechrau ymgeisiwyd i greu ethos ac amgylchedd dysgu positif o fewn y dosbarth gan fodelu agwedd bositif tuag at roi cynnig ar bethau ac i beidio â gofidio am wneud camgymeriadau wrth gynnig ar bethau. Dywed Nottingham (2015) fod Vygotsky yn sôn am sut mae ein hagweddau ni fel oedolion yn trosglwyddo i blant wrth iddynt sylwi ac etifeddu'r agweddau yma, felly trwy fodelu agwedd bositif at ddysgu a gwneud camgymeriadau o flaen y disgyblion, gobeithio fydd yr agwedd yma yn cael i drosglwyddo i'r disgyblion. Cytuna Sieberer-Nagler (2016) gan ddweud fod amgylchedd addysgu a dysgu plant yn cael i effeithio gan yr hyn mae'r athro yn ei wneud, dweud ac ymateb i. Mae hyn yn gydfyd â damcaniaeth Bronfenbrenner (Paquette a Ryan, 2001) wrth iddo nodi fod yr amgylchedd yn cael effaith ar y plentyn, ac mae'r ysgol tu fewn i'r haenen agosaf i'r plentyn sef yr 'Microsystem'. Cyfyngiad posibl wrth greu'r ethos yma ydy rheoli ymddygiad oherwydd mae angen y cydbwysedd i alluogi'r disgyblion i arbrofi ac ymchwilio i ddatrys problemau i ddysgu ond hefyd, dengys ymchwil fod dal angen rheoli ymddygiad disgyblion a gosod disgwyliadau uchel i'r disgyblion (Sieberer-Nagler, 2016).

Ymgeisiwyd i ddefnyddio strategaeth 'Yes Brain' Siegel a Byron (2018) i alluogi i ddisgybl A mynd ati yn hyderus â meddwl agored i ymgeisio ar bethau newydd ac i lwyddo trwy ddysgu sgiliau newydd i'w alluogi i lwyddo mewn amryw o sefyllfaoedd. Cysyllta hyn â'r model 'ASG' (Nottingham, 2015) wrth iddo greu agwedd bositif tuag at ddysgu. Gobaith yw fydd yr agwedd yma yn cael effaith ar yr holl feysydd dysgu ac o ganlyniad yn cynyddu sgiliau ac yna deilliannau disgybl A ar draws y cwricwlwm.

O ganlyniad i gyflwyno'r ethos a'r amgylchedd positif yma gobeithio bydd e'n cael effaith waith y disgybl, yn enwedig yn y maes Datblygiad Creadigol. Cynlluniwyd hefyd i ddefnyddio arlunwyr mewn gwersi celf sydd ag arddulliau hollol wahanol er mwyn trosglwyddo dealltwriaeth bod pawb yn wahanol ac yn creu pethau gwahanol. Er mwyn cynyddu hunan fri a hunan barch disgybl A o fewn y maes yma fel nodai Gardner (1991: dyfynnwyd yn Mindham, 2005) mae angen i ni fel ymarferwyr ddathlu

creadigaethau disgyblion er mwyn hybu creadigedd. Gobeithio trwy ddathlu gwaith y dosbarth cyfan wrth greu arddangosfa, bydd disgybl A yn adnabod fod pawb yn wahanol ac nad oes ffordd gywir o fod yn greadigol. Cynlluniwyd i ddefnyddio'r strategaeth yma oherwydd dywed Mindham (2005) fod y profiadau a dderbynnir yn yr ysgol yn cael effaith ar greadigedd ac agwedd dysgwyr.

Er mwyn datblygu sgiliau arbrofi ac archwilio disgybl A mewn gwersi cerddoriaeth cynlluniwyd fel ymarferydd i fod yn hwylusydd yn ystod y wers ac nid arweinydd y wers, oherwydd dywed Burnard a Murphy (2017) bod defnyddio'r dull hyn mewn gwersi cerddoriaeth yn galluogi ac yn hybu cyfranogwyr i feddwl yn greadigol, gwneud penderfyniadau a chysylltu gydag eraill.

Dadansoddwyd fod disgybl A ddim yn siarad llawer o Gymraeg er mae Cymraeg yw iaith y dosbarth, yr ysgol a'r iaith mae holl staff yr ysgol yn cyfathrebu trwyddi. Darganfuwyd fod gan ddisgybl A diddordeb mawr mewn storïau a darllen. Er mwyn datblygu sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu disgybl A, ymgeisiwyd defnyddio dull 'O ddweud stori i greu stori' (Corbett, 2006) i ddatblygu iaith disgybl A wrth fynd yn ôl ei ddiddordeb, sef storïau a darllen. Dengys ymchwil fod defnyddio'r dull yma yn 'dyblu cyfradd cynnydd disgyblion' ac yn gallu cynyddu'r nifer o blant sy'n gallu ail-ddweud stori wrth 74% (Talk for Writing, 2019: dim tudalen). Wrth ddefnyddio'r dull yma o ail-ddweud stori byddai'r disgybl yn dysgu iaith newydd, ei 'mewnoli' (Corbett, 2006) a fydd ei geirfa yn tyfu yn helaeth. Datgan Corbett (2006: ix) 'dyma'r dull mwyaf pwerus o gaffael iaith - gwrando a siarad yw'r modd mae'r plant yn dysgu iaith' a dewiswyd y dull yma i ddatblygu iaith disgybl A.

Fodd bynnag, nid yn unig llafaredd disgybl A mae'r strategaeth yma yn targedu. Bwriad terfynol 'O ddweud stori i greu stori' (Corbett, 2006) ydy i gael y testun i 'suddo'n ddwfn i gof tymor hir a gweithredol' y disgybl (Corbett, 2006: viii) ac yna gan ddefnyddio'r banc o eirfa, symud ymlaen i ysgrifennu'r stori neu i greu stori ei hun. Awgryma Estyn (2009) fod angen i ysgolion godi safonau llafaredd disgyblion er mwyn cefnogi ei ddatblygiad wrth iddynt ddarllen ac ysgrifennu.

Rhan o ddull Corbett (2006) ydy i greu map stori i gynorthwyo'r disgybl wrth ail-ddweud a dysgu'r stori. Adnabyddir bod disgybl A yn hoff iawn ac yn dda iawn am dynnu lluniau a llaw, ac mae ei hagwedd yn newid tuag at ei gwaith os ydyw'n cynnwys y cyfle i dynnu lluniau. O ganlyniad rhagfynegwyd bydd gan ddisgybl A agwedd bositif tuag at y dull yma ac felly, fel y awgrymir Nottingham (2015) fydd ganddi'r agwedd gywir ac agored tuag at ddysgu sgiliau a gwybodaeth newydd, sef yn sgiliau i ddechrau

ysgrifennu stori. Bwriadwyd i gael disgybl A i ysgrifennu stori ar y cyd i ddechrau ac unwaith iddi ddatblygu ymhellach gellir cynnig ysgrifennu yn annibynnol wrth iddi dderbyn y cyfle i'w wneud. Mae'n bosibl defnyddio'r dull yma yn drawsgwricwlaidd hefyd wrth ddewis stori sydd ag elfen rhifedd yn perthyn iddo. Hefyd, gan nad yw disgybl A yn hyderus wrth ddefnyddio technoleg, a bod ganddi lawysgrifen o safon uchel iawn am ei hoedran a does dim am ymarfer y sgil yma cymaint ag eraill efallai, gellir cynllunio ei bod hi'n defnyddio dyfais technoleg i ysgrifennu ei stori. Datblygai hyn ei sgiliau ysgrifennu a hefyd ei sgiliau cymhwysedd digidol wrth iddi arbed ei gwaith a'i hargraffu. Gellir dadlau fod y strategaeth yma yn mynd i gymryd amser fodd bynnag, y canlyniad sy'n bwysig.

Arsylwyd fod disgybl A yn mwynhau tasgau mathemateg ymarferol. Ymatebwyd yn hyderus i dasgau didoli siapiau, trafod arian a thalu am wrthrychau, a pharhau gydag a gorffen patrymau. Wrth addysgu sesiwn ymarfer darllen ac ysgrifennu rhifau arsylwyd fod angen targedu'r sgil 'ffurfio rhifau hyd at 10' yn gywir oherwydd roedd hi'n ffurfio nifer o'r rhifau yn anghywir. Nodai'r fframwaith fod angen cynnig 'gweithgareddau llafar, ymarferol a chwarae' i ddatblygu sgiliau mathemategol dysgwyr (Llywodraeth Cymru, 2015b: 28) Cynlluniwyd i weithio ar y sgil yma gan gynnig amryw o gyfleoedd i ddisgybl A ymarfer ffurfio rhifau, gan ddefnyddio amryw o adnoddau a chyfarpar. Dechreuwyd targedu'r sgil gan ddefnyddio adnoddau 'Math y Mwydyn' (Canolfan Peniarth, 2019) gan fod gan ddisgybl A ddiddordeb mawr mewn anifeiliaid. Penderfynwyd defnyddio'r adnoddau yma oherwydd wrth arsylwi disgybl A dros gyfnod amlygir fod ganddi agwedd bositif a gweithgar tuag at weithgareddau oedd â chysylltiadau i unrhyw anifail. Cysylltir hyn eto a'r rhan agwedd o'r model 'ASG' (Nottingham, 2015) wrth sicrhau fod gan y disgybl agwedd meddwl agored ac yna yn gallu datblygu sgiliau a gwybodaeth. Yn unol â hyn cynlluniwyd cyfleoedd i ddisgybl A i ymarfer ffurfio rhifau gan ddefnyddio sialc, paent ac amryw o adnoddau eraill. Yna hyrwyddir iddi ddefnyddio hunan asesu yn hytrach na'r ymarferydd yn marcio ac yn bwydo yn ôl i'r disgybl. Trwy hunan asesu gall disgybl A sylwi ar ble mae angen iddi wella a fydd yr asesu yma yn arwain i'w addysgu yn y dyfodol (Llywodraeth Cymru, 2010). Wrth hybu hunan asesu, pan fydd disgybl A yn ceisio ffurfio rhifau yn y dyfodol, gobeithio bydd y wybodaeth a enillwyd wrth hunan asesu, yn cael effaith ar y ffordd fydd hi'n ffurfio'r rhifau a hefyd yn cyfrannu tuag at yr awydd i lwyddo bydd gan ddisgybl A gan fod ganddi ddealltwriaeth glir o'r hyn sydd angen iddi wneud i lwyddo.

Yn y maes Datblygiad Corfforol mae disgybl A yn cyrraedd deilliant 4c oherwydd ei gallu i ddal offer marcio yn dda ac hefyd y gallu sydd ganddi i symud mewn amryw o ffyrdd yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae rhai o'r sgiliau sy'n disgwylidig o fewn deilliant 4 angen sylw er mwyn iddi ddatblygu yn gyfannol. O ganlyniad i diffyg hyder a sgiliau cymdeithasol disgybl A, nad ydy hi'n ymuno mewn gemau a cystadlaethau. Yn y gorffennol, mewn gwersi addysg gorfforol mae'r gwersi wedi canolbwyntio ar datblygu sgiliau rhedeg, neidio, sgipio a hercian ond doedd ddim elfen o gêm neu cystadleuaeth yn bresennol. Er mwyn datblygu sgiliau disgybl A yn y maes Datblygiad Corfforol, cynlluniwyd i gynnwys elfen o gêm neu cystadleuaeth fel rhan o bob gwर्स addysg corfforol yn y dyfodol. Dengys ymchwil bod cymryd rhan mewn gemau a cystadlaethau chwaraeon yn hybu blant i wneud penderfyniadau (Grehaig et al., 2001) ac er fod yr unigolion sydd a arbenigedd yn y maes yn gwneud penderfyniadau yn gyflym, gal unigolion sydd heb yr arbenigedd gwneud gwell penderfyniadau ac o ganlyniad cael effaith ar ei hunan fri (Grehaig et al., 2001). Cynlluniwyd cynnwys cystadleuaeth a gemau mewn gwर्स addysg gorfforol er mwyn hybu disgybl A i wneud penderfyniadau, datblygu ei sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu ac hefyd i wella ei lles, gan fod ymchwil yn dangos fod chwaraeon yn cael effaith bositif ar iechyd a lles plant (GIG, 2019).

Arsylwyd fod angen targedu a datblygu sgiliau'r maes dysgu Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol disgybl A ym mhellach na'r meysydd dysgu eraill. Amlygir nad oes gan ddisgybl A sgiliau cyfathrebu da gyda disgyblion eraill y dosbarth ac yn ystod amseroedd chwarae. Dewisodd disgybl A i grwydro ar ben ei hun yn hytrach na chwarae gyda gweddill y disgyblion. O ganlyniad i weledigaeth y Cyfnod Sylfaen, sef i blant dysgu 'drwy weithgareddau sy'n cynnig profiadau uniongyrchol gyda'r busnes difrifol o chwarae' (Llywodraeth Cymru, 2015b: 3) cynlluniwyd i gyflwyno gemau buarth yn ystod amseroedd chwarae'r disgyblion i ddatblygu sgiliau cyfathrebu disgybl A ac i wella ei lles. Dengys ymchwil gan Howard a McInnes (2013) mae plant sy'n ymgymryd mewn gweithgareddau chwarae a gwell lefelau o les na'r plant sy'n ymgymryd mewn gweithgareddau ble nad oes chwarae yn bresennol. Byddai ymarferwyr a disgyblion Cyfnod Allweddol dau yn arwain y gemau buarth wrth iddynt fodelu sut i chwarae'r gemau ond hefyd modelu'r iaith Gymraeg. Fyddai'r strategaeth yma yn cwmpasu damcaniaeth 'PDP' Vygotsky (Nottingham, 2015) ble mae disgybl A yn dysgu wrth ei chyfoedion. Datblygwyd ei sgiliau cyfathrebu a'i lles ond hefyd gan sicrhau fod yr iaith yn cael i fodelu'n effeithiol fyddai'r strategaeth

yma yn datblygu ei sgiliau iaith wrth iddi siarad Cymraeg gyda'i chyfoedion. 'Mae angen i blant brofi lles cymdeithasol, emosiynol a chorfforol er mwyn ffynnu a llwyddo yn eu haddysg' noda Donaldson (2015: 45) felly wrth gynnig yr ymyrraeth yma gaiff addysg disgybl A ei heffeithio'n gadarnhaol. Yn ychwanegol, fydd y gemau a chynlluniwyd yn gorfforol felly fyddai sgiliau corfforol disgybl A yn cael i'w ddatblygu a'i chyfoethogi wrth gymryd rhan.

Er mwyn datblygu sgiliau personol a chymdeithasol a chyfathrebu disgybl A ymhellach, cynlluniwyd i gynnwys amrywiaeth o waith grŵp o fewn tasgau yn y dosbarth. Dywed Llywodraeth Cymru (2010) bod gwaith grŵp effeithiol yn datblygu sgiliau meddwl disgyblion a fydd disgyblion yn dysgu i barchu ei gilydd wrth osod rheolau sylfaenol wrth iddynt weithio mewn grŵp, gan gynnwys pawb. Hefyd sylwer Vygotsky (1934: dyfynnwyd yn Llywodraeth Cymru, 2010) nad yw plentyn sy'n gweithio fel unigolyn mor llwyddiannus a phlentyn sy'n gweithio ar y cyd ag eraill. Dengys ymchwil (Llywodraeth Cymru, 2010: 7) bod '80% o'r hyn y mae plant yn ei ddysgu yn cael ei ddysgu oddi wrth ei gilydd.' Crëwyd maes dysgu a phrofiad penodol ar gyfer ieuchyd a lles yn y cwricwlwm newydd, ac mae creu perthnasau yn rhan hanfodol o'r maes yma. Wrth gyflwyno gemau buarth a gwaith grŵp effeithiol fyddai'r ymyrraeth yma yn hybu disgybl A i greu perthnasau yn y dosbarth ond hefyd ar draws yr ysgol hefyd.

O ganlyniad i gyflwyno'r mathau gwahanol yma o ymyrraeth fydd asesu yn digwydd yn naturiol i'w effeithiolrwydd yn ôl cynnydd disgybl A. Fodd bynnag, er mwyn asesu ymglymiad a lles disgybl A byddaf yn defnyddio graddfa 'Leuven' (Allen a Gordon, 2017) oherwydd heb lefel uchel o ymglymiad nid ydy'r disgybl yn buddio llawer o'r gweithgaredd maent yn cymryd rhan ynddi (Allen a Gordon, 2017).

Mae'r holl ymyriadau a gynlluniwyd i gyflwyno yn y dosbarth a'r ysgol yn rhai sydd ddim yn gofyn am gyllid i'w weithredu. Yr unig ymyrraeth sydd angen cyllid ydy'r ymyrraeth ffurfio rhifau. Fodd bynnag, gellir cychwyn ar yr ymyrraeth heb yr adnoddau am damaid o amser. Ymgeisiwyd i ddefnyddio ymyriadau heb yr angen am gyllid fel ei bod yn medru cael i weithredu yn syth.

Casgliad.

Amlygir wrth gynnal yr ymchwil, nad oedd digon o amser i gasglu data dibynadwy oherwydd roedd yr amser yn gyfyngedig wrth ystyried y cyfrifoldebau eraill oedd gennym fel myfyriwr. Mae'r dull 'Mosaig' (Clarke, 2007) y effeithiol os oes gan yr

ymchwilydd amser arwyddocaol i gynnal yr ymchwil. Ni chafwyd amser rhesymol i arsylwi ar ddisgybl A yn ystod gwersi cyfan a chollwyd amser o ganlyniad i'r gynhadledd anelu am ragoriaeth, diwrnod amlddiwylliannol, ymarferion canu ar gyfer gŵyl fwyd lleol a digwyddiadau eraill yr ysgol. Roedd amseriad yr ymchwil yn anffodus oherwydd roedd bywyd ysgol wedi cael effaith ar y gwersi a gynlluniwyd wrth i'r Profion Cenedlaethol golygu ein bod yn gyfyng i'r dosbarth ac yn methu defnyddio'r holl adnoddau'r ysgol ar adegau. Os fyddaf yn cynnal yr ymchwil eto yn y dyfodol, byddaf yn sicrhau fod gennyf fwy o amser i gasglu data dibynadwy fel ei bod yn effeithiol i gynnydd y plentyn.

O ganlyniad i'r ymchwil a gweithredu'r cwricwlwm newydd wrth ddilyn argymhellion Donaldson (2015), yn y dyfodol byddaf yn sicr yn casglu ac ystyried barn y disgyblion sydd yn y dosbarth a'r ysgol er mwyn cynllunio gwersi a gweithgareddau sydd yn mynd i fod o fydd iddyn nhw.

Atodiad 1

 Prifysgol Cymru
Y Ddrwydd Ddedd Sant
University of Wales
Trinity Saint David

 Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru / Education for Wales

Ynglŷn ag: Aseiniad Myfyrwyr TAR Cynradd: caniatâd a chadarnhad bod gwaith wedi cael ei wneud yn yr ysgol ar gyfer yr aseiniad 'Datblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion', Haf 2019.

Annwyl fentor dosbarth / uwch fentor ,

Ar gyfer y modwl prifysgol a enwir uchod, gofynnir i hyfforddeion i nodi un dysgwr sydd yn y dosbarth lle maent wedi cael eu lleoli a, dros y cyfnod Profiad Addysgu Proffesiynol, ymchwilio i'w ddysgu yn fanwl. Gallai'r dystiolaeth sydd angen ei chasglu arnynt gynnwys:

- arsylwi;
- gofyn i'r dysgwr nodi mannau/ pethau sy'n ei helpu ef / hi i ddysgu;
- trafod gyda'r disgybl a/ neu'r athro'r hyn sy'n helpu'r disgybl i ddysgu a sut maent yn teimlo am ddysgu;
- casglu samplau o waith a allai ddangos rhywbeth am gynnydd a datblygiad y dysgwr.

Gofynnir iddynt ganolbwyntio ar wybodaeth, agwedd a sgiliau mewn iaith, mathemateg, lles, yn ogystal ag o leiaf dau faes arall o'r cwricwlwm er mwyn cael darlun cyfannol o'r plentyn. Yna, gwnânt awgrymu'r camau nesaf ar gyfer y disgybl a dangos sut caiff y rhain eu cyflawni. Disgwylir i hyfforddeion fod yn annibynnol, pa bryd bynnag mae'n bosibl, wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, ac maent wedi cael canllawiau moesegol i'w dilyn (er ein bod ni'n rhagweld caiff y gwaith uchod ei wneud yn unol ag arfer arferol yr ystafell ddosbarth). Gofynnwyd i'r hyfforddeion i beidio â datgelu enwau'r dysgwr na'r ysgol yn eu haseiniadau. Gofynnir i'r myfyrwyr i:

1. Ofyn am ganiatâd ar gyfer gwneud y gwaith hwn (drwy ymgynghori â'r athro dosbarth a'r dysgwr).
2. Ddarparu cadarnhad bod y gwaith archwilio wedi digwydd.

Felly, byddem yn ddiolchgar pe baech yn gallu cadarnhau drwy lofnodi isod bod y myfyrwr wedi gofyn am ganiatâd a bod y tasgau wedi cael eu cynnal.

ENWR MYFYRIWR/ MYFYRWRAIG (PRINTIWC OS GWELWC YN DDA):

Natasha Morris

ENWR YSGOL (PRINTIWC OS GWELWC YN DDA):

Ysgol Cenarth

ENWR UWCH FENTOR / MENTOR DOSBARTH (PRINTIWC OS GWELWC YN DDA):

Heulwen Howells

ENWR UWCH FENTOR / MENTOR DOSBARTH (LLOFNODWC OS GWELWC YN DDA):

H A Howells

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, yna cysylltwch ag : Arweinydd y Rhaglen
Mathew Jones M.Jones@uwtsd.ac.uk

Diolch yn fawr o flaen llaw

DYLIID CYNNWYS COPI WEDI'I LOFNODI YN ATODIAD YR ASEINIAD

Atodiad 2

 Prifysgol Cymru
Y Ddrudol Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Adding a Centre, Education for Wales

Dear Parent/Guardian,

Your child's school is a partner with Yr Athrofa at the University of Wales Trinity Saint David in Carmarthen and Swansea. This school offers placements to students who are learning to be teachers.

The student-teacher in your child's class has been given the task of analysing children's learning so that he/she can consider how he/she would support pupils in making progress. As part of this, student-teachers will be observing the children's learning and asking about what things and places in the school help children learn. This is designed to inform students' own practice and support children's learning.


Any information collected would remain confidential, and both the school and the children would remain anonymous in work produced. The work undertaken would be in line with the University's ethical guidelines. If, at any time, your child does not want to share ideas, they would not be required to do so.

If you are happy for your child to contribute to the project, please complete the parental consent form below and return directly to the school as soon as possible. If you are interested in the outcome of this project or if you have any questions, please contact the University Partnership Office - partnership@uwtsd.ac.uk.

Yours faithfully,


Mathew Jones
Module lead – School Development and Pupil Progress

As Parent/Guardian of [redacted] (pupil name),
I do / ~~do not~~ give consent (please delete) for my child to take part in this project.

Signed  (Parent/Guardian).

Date 9th Sep 2019

Atodiad 3



Disgybl A

Ysgrifennu brawddegau ar y cyd
gyda llawer o gymorth.

Atodiad 4

Ysgrifennu rhestr o eiriau sydd â 'b' ynddynt.

blodyh ✓
 draw ✓
 maw ✓
 awleri ha ✓
 gorsaf betol ✓
 maw ✓
 2 Paewd ✓

BYDSI

Ysgrifennu rhestr o eiriau sydd â 'b' ynddynt.

Cyfrannu ar lafar wrth chwilio am eiriau.

Dod a hyd i eiriau mewn geiriadur.


Ysgrifennu y geiriau gan ddefnyddio y geiriadur yn eiddo.

Angen canolbwynt gwell ar dasg.

Atodiad 5





Atodiad 6



Disgybl A

Adnabod siapiau 2D ac yn gallu adnabod siapiau gwrthrychau pob dydd a'u didoli.

Atodiad 7



Disgybl A

Adnabod darnau arian 1c, 2c, 5c a 10c. Defnyddio darnau arian i dalu am eitemau yn hyderus.

Atodiad 8



Disgybl A

Ffurio rhifau 2, 3, 4 a 7 y ffordd anghywir. Angen ymarfer y rhifau yma.

Atodiad 9

Ymchwilydd: "Beth yw dy hoff beth i wneud yn yr ysgol?"

Disgybl A: "Darllen"



Atodiad 10



Cyfrinair: ymchwil

Disgybl A

Gallu neidio, rhedeg a cropian yn hyderus a dilyn cyfarwyddiadau.

Atodiad 11



Disgybl A

Wedi greu malwoden yn dilyn llawer o arweiniad. Angen datblygu hyder a ymarfer y sgil gwneud penderfyniadau.

Rhestr Cyfeirnod.

Allen, S. a Allen, P. (2017) 'How children learn: Book 4' https://books.google.co.uk/books?id=g6G_BAAQBAJ&dq=leuven+scale+ferre+laevers&source=gbs_navlinks_s [Darllenwyd: 29/05/19].

Barker, J. a Weller, S. (2003) "'Is it fun?' developing children centred research methods' *International Journal of Sociology and Social Policy*, Vol. 23 Iss: 1 pp. 33 – 58. [Ar-lein] https://s3.amazonaws.com/academia.edu.documents/35714458/Is_it_fun_-_published.pdf?AWSAccessKeyId=AKIAIWOWYYGZ2Y53UL3A&Expires=1559125894&Signature=K0w3b8wsn8mpA%2BMQI3%2BxcNTCw6k%3D&response-content-disposition=inline%3B%20filename%3DIs_it_fun_Developing_children_centred_r.pdf [Darllenwyd: 29/05/19].

Bodrova, E. a Leong, D. J. (2015) 'Vygotskian and Post-Vygotskian Views on Children's Play' *American Journal of Play*. Vol 7, 3, pp. 371-388. [Ar-Lein] <https://files.eric.ed.gov/fulltext/EJ1070266.pdf> [Darllenwyd: 28/05/19].

British Educational Research Association (2018) 'Ethical Guidelines for Educational Research.' (4th ed.) https://www.bera.ac.uk/wp-content/uploads/2018/06/BERA-Ethical-Guidelines-for-Educational-Research_4thEdn_2018.pdf?noredirect=1 [26/05/19].

Bruce, T., Louis, S. a McCall, G. (2014) *Observing Young Children*. SAGE: Llundain.

Burnard, P. a Murphy, R. (2017) *Teaching music creatively*. Routledge: Llundain.

Clark, A. (2007) 'A hundred ways of listening' <file:///F:/TAR/Asesu%20cynydd/Darllen/ClarkMosaicApproach.pdf> [Darllenwyd: 14/05/19].

Canolfan Peniarth (2019) 'Math y Mwydyn' <https://siop.canolfanpeniarth.org/math-y-mwydyn> [Darllenwyd: 29/05/19].

Colwell, J., Beaumont, H. a Cook, E. (2015) *Reflective Teaching in Early Education*. London: Bloomsbury.

Corbett, P. (2006) *O ddweud stori i greu stori*. CBAC: Caerdydd.

Dalli, C. a Stephenson, A. (2010) 'Involving children in research in early childhood education settings: Opening up the issues' https://thehub.sia.govt.nz/assets/documents/41137_Involving-CYP-02092010_0.pdf#page=17 [Darllenwyd: 27/05/19].

David, M., Edwards, R. a Alldred, P. (2001) 'Children and School-Based Research: 'Informed Consent' or 'Educated Consent'?' *British Educational Research Journal*, Vol. 27, 3 Mehefin, pp. 347-365 [Ar-Lein] https://moodle.uwtsd.ac.uk/pluginfile.php/133353/mod_resource/content/1/2018%20Informed%20consent.pdf [Darllenwyd: 25/05/19].

Donaldson, G. (2015) 'Dyfodol Llwyddiannus'. <https://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf> [Darllenwyd: 23/05/19].

Estyn (2009) 'Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu ymhlith disgyblion rhwng pump a saith oed' <https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Arfer%20orau%20mewn%20darllen%20ac%20ymhlith%20ysgrifennu%20disgyblion%20rhwng%20pump%20a%20saith%20oed%20-%20Mawrth%202009.pdf> [Darllenwyd: 29/05/19].

GIG (2019) 'Ymarfer Corff' <https://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/LifestyleWellbeing/Physicalactivity?locale=cy> [Darllenwyd: 29/05/19].

Grehaig, J. F., Godbout, P. a Bouthier, D. (2001) 'The Teaching and Learning of Decision Making in Team Sports' *Quest*. Vol 53, 1, pp. 59-76. [Ar-lein] https://www.researchgate.net/publication/241733762_The_Teaching_and_Learning_of_Decision_Making_in_Team_Sports [Darllenwyd: 29/05/19].

Hanessian, L (2018) 'Dr. Dan Siegel: What Hearing "Yes" Does to Your Child's Brain' <https://www.mindful.org/dr-dan-siegel-hearing-yes-childs-brain/> [Darllenwyd: 27/05/19].

Howard, J. a McInnes, K. (2013) 'The impact of children's perception of an activity as play rather than not play on emotional well-being' *Child: care, health and development*. Vol 39, 5, Mehefin. [Ar-lein] <https://onlinelibrary.wiley.com/doi/full/10.1111/j.1365-2214.2012.01405.x> [Darllenwyd: 29/05/19].

Llywodraeth Cymru (2010) 'Sut i ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth'

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf> [Darllenwyd: 18/05/19].

Llywodraeth Cymru (2015a) 'Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn' <http://www.hawliauplant.cymru/images/PDF/CCUHPArticles-CY.pdf> [Darllenwyd: 18/05/18].

Llywodraeth Cymru (2015b) 'Fframwaith y Cyfnod Sylfaen' <https://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150803-fp-framework-cy.pdf> [Darllenwyd: 14/05/19].

Llywodraeth Cymru (2017) 'Llawlyfr Proffil y Cyfnod Sylfaen' <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/llawlyfr-proffil-y-cyfnod-sylfaen-diwygiwyd-medi-2017.pdf> [Darllenwyd: 26/05/19].

Llywodraeth Cymru (2018) 'Fframwaith Cymhwysedd Digidol' <http://learning.gov.wales/resources/browse-all/digital-competence-framework/?skip=1&lang=cy> [Darllenwyd: 22/05/18].

Lundy, L., McEvoy, L. a Byrne, B. (2011) 'Working With Young Children as Co-Researchers: An Approach Informed by the United Nations Convention on the Rights of the Child' *Early Educational and Development*. Vol 22, 5, pp. 714-736. [Ar-lein] <https://web-b-ebsscohost-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/detail/detail?vid=0&sid=c4fb4f6a-e1bc-458b-986a-2dc40b939d6b%40sessionmgr101&bdata=JnNpdGU9ZWVhc3QtbGl2ZQ%3d%3d#AN=525514667&db=eue> [Darllenwyd: 27/05/19].

Mindham, C. (2005) 'Creativity and the Young child' *Early Years Journal*. Vol 25, 1, pp. 81-84. [Ar-lein] <https://www.tandfonline-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/doi/full/10.1080/09575140500043245> [Darllenwyd: 29/05/19].

Nottingham, J. (2015) *Encouraging Learning*. Routledge: Oxon.

Oswald, D., Sherratt, F. a Smith, S. (2014) 'Handling the Hawthorne effect: The challenges surrounding a participant observer.' *Review of Social Studies*. Vol 1, 1,

Hydref, pp. 53-73. [Ar-lein] <http://www.rossjournal.co.uk/wp-content/uploads/2016/12/RoSS-Vol1-No1-Oswald-et-al-53-73.pdf> [Darllenwyd: 28/05/19].

Paquette, D. a Ryan, J. (2001) 'Bronfenbrenner's Ecological Systems Theory' http://www.floridahealth.gov/AlternateSites/CMS-Kids/providers/early_steps/training/documents/bronfenbrenners_ecological.pdf [Darllenwyd: 29/05/19].

Pellegrini, A. D., Hoch, J. a Symons, F. J. (2013) *Observing children in their natural worlds*. Psychology Press: Sussex.

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (2017-2022) 'Research Ethics & Integrity Code of Practice' <https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/research/research-ethics-integrity-code-practice.pdf> [Darllenwyd: 04/05/19].

Schiller, W. a Einarsdottir, J. (2009) 'Listening to Young children's voices in Research – changing perspectives/changing relationships.' *Early Child Development and Care*. Vol 179, 2, pp. 125-130. [Ar-lein] http://menntavisindastofnun.hi.is/sites/menntavisindastofnun.hi.is/files/rannung/grein_ar/early_child_development_and_care_2009.pdf [Darllenwyd: 29/05/19].

School Guide (2013-2019) 'Ysgol Gymunedol [REDACTED]' [https://www.schoolguide.co.uk/schools/\[REDACTED\]-sir-gar](https://www.schoolguide.co.uk/schools/[REDACTED]-sir-gar) [Darllenwyd: 16/05/19].

Sieberer-Nagler, K. (2016) 'Effective Classroom-Management & Positive Teaching' *English Language Teaching*. Vol 9, 2, pp. 163-172. [Ar-lein]. <https://files.eric.ed.gov/fulltext/EJ1087130.pdf> [Darllenwyd: 29/05/19].

Siegel, D. J. a Bryson, T. P. (2018) *The Yes Brain*. Bantam Books: Efrog Newydd.

Talk for Writing (2019) 'The key to raising attainment' <https://www.talk4writing.co.uk/about/> [Darllenwyd: 29/05/19].

The National Archives (2018) 'Data Protection Act 2018' <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2018/12/contents> [Darllenwyd: 07/05/19].